OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 174 (Cy. 36)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r De o Fetws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Cerbydau sy'n Lletach na 3 Metr Dros Dro) 2025

Gwnaed	*17 Chwefror 2025*
Yn dod i rym	*28 Chwefror 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r De o Fetws-y-coed, Conwy) (Gwahardd Cerbydau sy'n Lletach na 3 Metr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 28 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi ym Metws-y-coed sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A470 (Pont Waterloo) i'r de o Fetws-y-coed i gyfeiriad y de hyd at ei chyffordd â'r B4406 i Benmachno.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n lletach na 3 metr ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Chwefror 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru